
**Rhif**: **7**

**Rhif y Cais / Application Number : C15-0748-44-LL**

**Cynllun lleoliad ar gyfer adnabod y safle yn unig. Dim i raddfa.**
**Location Plan for identification purposes only. Not to scale.**



| | |
|---|---|
| Cais Rhif: | C15/0748/44/LL |
| Dyddiad Cofrestru: | 12/08/2015 |
| Math y Cais*:* | Llawn - Cynllunio |
| Cymuned*:* | Porthmadog |
| Ward: | Dwyrain Porthmadog East |
| Bwriad: | TROSI AC EHANGU CYN SAFLE TRWSHIO CARAFANAU I LEOLIAD GWERTHU CEIR, CANOLFAN MOT A MODURDY TRWSIO CERBYDAU |
| Lleoliad: | CYN HAMDDEN CARAVAN PREMISES, STRYD MADOG, PORTHMADOG, GWYNEDD, LL49 9DB |

**Crynodeb o'r Argymhelliad:** DIRPRWYO'R HAWL I GANIATÁU GYDAG AMODAU

**1. Disgrifiad:**

1.1 Gohiriwyd y cais yn y Pwyllgor Cynllunio dyddiedig 19 Hydref 2015, er mwyn cynnal ymweliad safle.

1.2 Mae hwn yn gais ar gyfer trosi cyn safle trwsio carafanau yn lleoliad gwerthu ceir a chanolfan MOT / modurdy trwsio cerbydau. Mae'r cais yn cynnwys helaethu prif adeilad y safle drwy ei ymestyn 2.3m ymlaen at ffin y briffordd. Fe fyddai'r estyniad i'r adeilad yn creu 37m$^2$ ychwanegol o arwynebedd llawr. Bwriedir yn ogystal codi lefel y to 1.7m yn uwch na'r adeilad presennol (sydd wedi ei ddymchwel yn rhannol). Bwriedir cael to brig plastig llwyd ar yr adeilad gyda waliau yn cynnwys llawer o wydr ar yr edrychiad blaen ynghyd a chladin dur llwyd o amgylch gweddill yr adeilad. Bwriedir defnyddio'r adeilad hwn ar gyfer gwerthu ceir gyda swyddfa, storfa ac ystafell ymolchi yng nghefn yr adeilad. Bwriedir defnyddio'r adeilad presennol, a ddefnyddiwyd gynt ar gyfer trwsio carafanau, ar gyfer y ganolfan MOT / trwsio cerbydau.

1.3 Mae'r safle wedi ei leoli y tu mewn i ffin datblygu Porthmadog fel y'i diffinnir gan Gynllun Datblygu Unedol Gwynedd. Mae'r safle mewn ardal o ddefnydd cymysg gyda bragdy'r Mws Piws yn uniongyrchol i'r gogledd a chefnau tai Heol yr Wyddfa i'r de. Mae'r safle dros y ffordd i res o dai ar Heol Madog. Mae'r safle hefyd wedi ei leoli oddi fewn Parth C1 o safbwynt llifogydd mewn perthynas â Nodyn Cyngor Technegol 15 : Datblygiad a Pherygl o Lifogydd.

1.4 Mae'r cais hwn yn dod ger bron y Pwyllgor Cynllunio ar gais yr Aelod Lleol.

**2. Polisïau Perthnasol:**

2.1 Mae Adran 38(6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a pharagraff 2.1.2 Polisi Cynllunio Cymru yn pwysleisio y dylid penderfynu ceisiadau yn unol â'r Cynllun Datblygu, oni bai bod ystyriaeth faterol cynllunio yn nodi fel arall. Mae ystyriaethau cynllunio yn cynnwys Polisi Cynllunio Cenedlaethol, a'r Cynllun Datblygu Unedol.

**2.2 Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd 2009:**

POLISI STRATEGOL 16 – CYFLOGAETH
Caniateir datblygiadau fydd yn cryfhau economïau lleol os nad ydynt yn niweidio'r amgylchedd, diwylliant neu fwynderau.

POLISI B22 - DYLUNIAD ADEILADAU
Hyrwyddo dyluniad adeiladau da drwy sicrhau fod cynigion yn cydymffurfio â chyfres o feini prawf sy'n anelu i ddiogelu nodweddion a chymeriad cydnabyddedig y dirwedd a'r amgylchedd lleol.

POLISI B23 - MWYNDERAU
Diogelu mwynderau'r gymdogaeth leol drwy sicrhau bod rhaid i gynigion gydymffurfio â chyfres o feini prawf sy'n anelu i warchod nodweddion cydnabyddedig a mwynderau'r ardal leol.

POLISI B25 - DEUNYDDIAU ADEILADU
Gwarchod cymeriad gweledol trwy sicrhau fod yn rhaid i ddeunyddiau adeiladu fod o safon uchel sy'n gweddu i gymeriad ac edrychiad yr ardal leol.

POLISI B29 - DATBLYGIADAU AR DIROEDD DAN FYGYTHIAD LLIFOGYDD
Rheoli datblygiad penodol ym mharth llifogydd C1 a C2 a'u cyfeirio tuag at dir addas ym mharth Ac oni bai y gellid cydymffurfio â chyfres o feini prawf sy'n berthnasol i nodweddion y safle a phwrpas y datblygiad.

POLISI B33 - DATBLYGIADAU SY'N CREU LLYGREDD NEU BOENDOD
Diogelu amwynderau dynol, ansawdd iechyd a'r amgylchedd naturiol neu adeiledig rhag lefelau uchel o lygredd.

POLISI C1 - LLEOLI DATBLYGIAD NEWYDD
Tir o fewn ffiniau datblygu trefi a phentrefi a ffurf ddatblygedig pentrefi gwledig fydd y prif ffocws ar gyfer datblygiadau newydd. Gwrthodir adeiladau, adeiladweithiau a chyfleusterau atodol newydd yng nghefn gwlad ar wahân i ddatblygiad sy'n cael ei ganiatáu gan bolisi arall yn y Cynllun.

POLISI C3 - AIL-DDEFNYDDIO SAFLEOEDD A DDEFNYDDIWYD O'R BLAEN
Cymeradwyir cynigion sy'n rhoi blaenoriaeth i ailddefnyddio tir neu adeiladau a ddatblygwyd o'r blaen a leolir o fewn neu o gwmpas ffiniau datblygu cyn belled ag y bo'r safle neu'r adeilad a'r defnydd yn addas.

POLISI CH33 - DIOGELWCH AR FFYRDD A STRYDOEDD
Caniateir cynigion datblygu os gellir cydymffurfio gyda meini prawf penodol sydd yn ymwneud a'r fynedfa gerbydau, safon y rhwydwaith ffyrdd presennol a mesurau tawelu traffig.

POLISI D2 - SAFLEOEDD DIWYDIANNOL
Diogelu tir ac unedau ar Safleoedd Diwydiannol ar gyfer defnyddiau Dosbarth B1, B2 a B8. Caniatáu datblygiadau nad ydynt yn ddefnyddiau B1, B2 a B8 os yn gyfleusterau busnes atodol ar raddfa fach; darparu cyfleusterau rheoli gwastraff neu ddefnyddiau 'sui generis' eraill gyda nodweddion tebyg weithgaredd Dosbarth B1 a B2; neu, dim yn arwain at brinder tir unedau ar gyfer defnydd B1, B2 a B8.

POLISI D6 - UNEDAU DIWYDIANNOL/BUSNES O FEWN FFINIAU DATBLYGU
Caniatáu cynigion cyn belled nad yw'r safle wedi ei ddynodi ar gyfer defnydd arall a bod graddfa, y math a dyluniad y datblygiad yn addas ac yn gydnaws a defnyddiau presennol cyfagos.

**2.3 Polisïau Cenedlaethol:**

Polisi Cynllunio Cymru – (Argraffiad 7, Gorffennaf 2014)
Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio (2009)

Nodyn Cyngor Technegol 15 : Datblygiad a Pherygl o Lifogydd (2004)
Nodyn Cyngor Technegol 23: Datblygu Economaidd (2014)

**3. Hanes Cynllunio Perthnasol:**

3.1 C13/0271/44/LL : Estyniad blaen a ffrynt siop newydd - Caniatawyd : 11/03/13

3.2 C04D/543/44/LL - Estyniad cefn unllawr i greu swyddfa, toiled ac ystorfa - Caniatawyd 03/11/04

**4. Ymgynghoriadau:**

Cyngor Cymuned: Gwrthwynebiad - Rhesymau:

- gor-ddatblygiad mewn ardal breswyl,
- cynnydd llif traffig sylweddol,
- amddifadu tai cyfagos o'r hawl i oleuni, a
- byddai'n amharu ar fwynderau trigolion cyfagos.

Uned Drafnidiaeth: Sylwadau

- Dim gwrthwynebiad mewn egwyddor
- Mae angen naill ai fwy o lecynnau penodol ar gyfer staff ac ymwelwyr, a man parcio / dadlwytho lori, neu leihau'r niferoedd o lecynnau parcio a fwriedir eu defnyddio i werthu ceir o fewn y cwrtil. Rhaid hefyd sicrhau lle i barcio lori neu "transporter" o fewn y cwrtil fel nad yw'n gorfod dadlwytho neu barcio ar y stryd gyfagos. Argymell hefyd addasu'r llinell gwarchod mynedfa ddeheuol i ddarparu dau lecyn parcio ychwanegol ar y stryd, gyda'r addasiadau i'w gwneud ar gost yr ymgeisydd.

Iechyd yr Amgylchedd / Gwarchod y Cyhoedd: Dim pryderon sylweddol ynghylch y cais hwn gan fod gweithdy trwsio carafanau yn bodoli eisoes ar y safle ac nid oes unrhyw hanes o gwynion o’r safle yn hanesyddol. Mae angen y cyfyngiadau isod er amddiffyn mwynderau trigolion lleol :

- Cyfyngu oriau'r gweithdy trwsio cerbydau i oriau gwaith arferol.
- Gosod oriau safonol ar gyfer yr elfen gwerthu ceir
- Angen sicrhau camau i osgoi llygredd goleuni

Cyfoeth Naturiol Cymru: Dim gwrthwynebiad os rhoddir ystyriaeth deilwng i'r isod :

- Rheolaeth Amgylcheddol : Dylid gwaredu unrhyw wastraff yn unol â'r ddeddfwriaeth briodol
- Awgrymir gosod System Ddraenio Drefol Cynaliadwy
- Awgrymu gosod rhyng-gipiwyr olew i wahanu unrhyw arllwysiad olew o'r dŵr wyneb
- O ystyried graddfa'r datblygiad ystyrir bod y risg llifogydd yn dderbyniol

Dŵr Cymru: Sylwadau safonol parthed dŵr wyneb.

Ymgynghoriad Cyhoeddus: Rhoddwyd rhybudd ar y safle ac mae’r cyfnod hysbysebu wedi dod i ben. Derbyniwyd y sylwadau isod yn ymwneud a materion cynllunio perthnasol yn gwrthwynebu'r datblygiad :

- buasai cael gwared a'r mesurau lliniaru trafnidiaeth ar y ffordd yn gwaethygu problemau priffordd mewn ardal sydd eisoes yn tagu gyda thraffig
- fe fyddai natur y busnes, yn enwedig yr elfennau MOT a thrwsio cerbydau, yn ychwanegu at broblemau ar y briffordd
- mae busnes o'r fath hon yn fwy addas ar gyfer safle ar ymyl y dref

Derbyniwyd yn ogystal y sylwadau isod nad ydynt yn ystyriaethau cynllunio materol :

- mae tri busnes cyffelyb yn yr ardal - cwestiynu'r angen am un arall
- pryder bod gwaith ar y datblygiad eisoes wedi dechrau

## 5. Asesiad o’r ystyriaethau cynllunio perthnasol:

**Egwyddor y datblygiad**

5.1 Mae’r safle wedi ei leoli y tu fewn i ffin ddatblygu Porthmadog a, tan yn ddiweddar, defnyddiwyd y tir at ddiben cyffelyb i'r hyn a gynhigir h.y. storio, gwerthu a thrwsio carafanau. Mae Polisi C1 y Cynllun Datblygu Unedol yn datgan mae tir o fewn ffiniau datblygu trefi a phentrefi a ffurf ddatblygedig pentrefi gwledig fydd y prif ffocws ar gyfer datblygiadau

5.2 Mae Polisi C3 yn cymeradwyo datblygiadau sy'n ail-ddefnyddio tir neu adeiladau a ddatblygwyd o'r blaen a leolir o fewn ffin datblygu, cyn belled ag y bo'r safle neu'r adeilad a'r defnydd yn addas.

5.3 Mae Polisi D6 y CDU yn cymeradwyo adeiladu unedau ar gyfer diwydiant neu fusnes o fewn ffiniau datblygu yn ddarostyngedig i'r ddau faen prawf isod :

1) *Nad yw’r safle wedi cael ei ddynodi ar gyfer defnydd arall*

Nid oes unrhyw ddynodiad penodol i'r safle hwn o fewn y CDU.

1) *Bod graddfa, math a dyluniad y datblygiad yn addas ar gyfer y safle a'r ardal yn union gerllaw a'i fod yn gydnaws a defnyddiau presennol cyfagos*

5.4 Fe drafodir addasrwydd y cynllun ar gyfer y safle yn y rhannau sydd i ddilyn ond, o ystyried agwedd gadarnhaol cyffredinol y polisi hwn a'r prif bolisïau eraill, fe gredir fod y cynnig yn gyson gyda’r prif bolisïau perthnasol y Cynllun Datblygu Unedol, sef C1, C3 a D6, ac felly bod egwyddor y datblygiad hwn yn dderbyniol, fodd bynnag mae hyn yn ddarostyngedig ar sicrhau addasrwydd y defnydd a'r adeilad i'r safle a'i gyffiniau yn ogystal a bodloni polisïau perthnasol eraill.

5.5 Mae'r ffaith fod y gwaith ar y datblygiad eisoes wedi'i ddechrau yn llwyr ar risg y datblygwr ac nid yw'n ystyriaeth cynllunio faterol.

**Mwynderau gweledol**

5.6 Fe fyddai’r adeilad a fwriedir yn fwy na'r adeilad presennol, fodd bynnag ni ystyrir fod yr ychwanegiad mewn gofod llawr na'r cynnydd mewn uchder yn anaddas i'r lleoliad. Mae amrywiaeth o adeiladau eraill o faint cyffelyb yn yr ardal, gan gynnwys y bragdy drws nesaf. Fe ystyrir y byddai'r dyluniad a deunyddiau'n adlewyrchu busnes cyfoes safonol ac, er gwaethaf ei faint, y byddai'r adeilad yn welliant gweledol o'i gymharu â'r uned ddi-nod bresennol.

5.7 Gan fod y datblygiad ar safle a ddefnyddiwyd o'r blaen at ddefnydd cyffelyb a'i fod gerllaw adeiladau o'r un raddfa, ni ystyrir y byddai’n edrych allan o le ac fe ystyrir y byddai edrychiad y datblygiad yn dderbyniol ac yn cydymffurfio gyda gofynion Polisïau B22 & B25 o’r CDU.

**Mwynderau cyffredinol a phreswyl**

5.8 O ystyried bod y datblygiad arfaethedig ar safle sydd wedi ei ddefnyddio yn y gorffennol ar gyfer cadw a thrwsio carafanau ni ystyrir y buasai newid arwyddocaol yn effeithiau'r defnydd ar fwynderau'r ardal. Fe ellid disgwyl fod peth sŵn yn cael ei greu o’r adeilad MOT / trwsio cerbydau ond o osod cyfyngiad amser rhesymol ar y gwaith, ni fyddai effeithiau o’r fath yn annisgwyl nac yn annerbyniol mewn ardal drefol o ddefnydd cymysg. Mae'r datblygiad yn dderbyniol gan Uned Gwarchod y Cyhoedd yn ddarostyngedig i osod amodau i gyfyngu ar yr oriau gweithredu. Fe nodir yn ogystal nad oedd cyfyngiad ar oriau gweithredu'r busnes carafanau ac felly mae'r cais cyfredol yn cynnig cyfle i sicrhau nad yw'r busnes ar y safle'n gweithredu ar adegau anghymdeithasol.

5.9 O safbwynt mwynderau gweledol eiddo preifat gerllaw, wrth dderbyn bydd yr adeilad newydd ychydig yn fwy na'r adeilad gwreiddiol, o ystyried natur drefol yr ardal a maint a dyluniad adeiladau eraill cyfagos, ni ystyrir bod dyluniad a maint y datblygiad yma yn anaddas ar gyfer y lleoliad. Mae tai Heol yr Wyddfa'n cefnu ar y safle gyda'r rhan fwyaf o'r ffenestri sy'n ei wynebu'n ffenestri afloyw ystafelloedd ymolchi neu'n ffenestri cegin gefn, nid ydynt yn brif edrychiadau o'r eiddo hyn. Mae rhai o dai Heol Madog yn edrych yn uniongyrchol dros y safle ond, o ystyried na fydd newid sylweddol ym maint y prif adeilad a bod y safle ar yr ochr arall i ffordd eithaf llydan, 10m o'r tai gyferbyn, ni ystyrir y byddai niwed arwyddocaol i fwynderau gweledol y tai hynny. Fe dderbynnir y gall fod peth llygredd goleuni'n deillio o'r safle ond, o osod amodau oriau priodol, ni ystyrir y bydd hyn yn broblem arwyddocaol.

5.10 Derbynnir yn ogystal y gall fod peth cynnydd mewn gweithgaredd cyffredinol a thrafnidiaeth yn deillio o'r datblygiad ond wedi dweud hynny mae'r defnydd o'r safle wedi'i gyfyngu gan ei faint a nifer y llefydd parcio. O ystyried bod gwaith megis MOT a thrwsio cerbydau yn rhywbeth a drefnir ymlaen llaw, ni ddisgwylir llif traffig ychwanegol sylweddol i ddeillio o'r gweithgareddau hyn. O safbwynt yr uned gwerthu ceir, mae hwn yn ddefnydd nad oes angen mynediad cerbydol rheolaidd ar ei gyfer ac, o ystyried bod maes parcio sylweddol o fewn 100m i'r safle ac arosfannau bysus a threnau o fewn pellter cerdded hwylus, fe ystyrir bod hwn yn ddefnydd canol tref priodol na ddylai effeithio'n ormodol ar drafnidiaeth. Derbynnir y bydd rhaid gwneud trefniadau arbennig ar gyfer achlysuron arbennig e.e. ar gyfer derbyn llwythi ceir ar gefn lori, a hefyd bod rhaid sicrhau trefniant parcio mewnol priodol, ond fe gredir y gellid sicrhau datrysiad ar gyfer hyn trwy drafodaethau pellach rhwng y datblygwyr a'r Uned Drafnidiaeth ac drwy osod amodau cynllunio priodol.

5.11 Er y gwerthfawrogir pryderon lleol am y bwriad rhaid ystyried y bwriad yng nghyd destun lleoliad canol tref y safle yn ogystal a’i ddefnydd blaenorol fel safle trwsio carafanau. Yn sgil hyn, ac am y rhesymau uchod, fe gredir na fyddai'r datblygiad yn

cael effaith niweidiol arwyddocaol ar fwynderau trigolion cyfagos ac y byddai'r datblygiad yn gydnaws gyda Pholisïau B23 a B33 y CDU.

**Llifogydd a dŵr**

5.12 Mae'r safle yn gorwedd o fewn Parth C1 fel y dangosir ar fapiau cyngor datblygu yn gysylltiedig gyda NCT15 : Datblygu a Pherygl o Lifogydd. Ymgynghorwyd gyda Chyfoeth Naturiol Cymru a derbyniwyd eu sylwadau yn datgan bod y datblygiad yn dderbyniol o safbwynt perygl llifogydd. Nid yw'r defnydd arfaethedig yn un sy'n agored iawn i niwed ac nid yw'n arwyddocaol wahanol i'r defnydd busnes blaenorol o safbwynt risg llifogydd. Ni fydd dim rhagor o wyneb caled nag y bu'n flaenorol ac nid oes unrhyw gynnig i newid y system ddraenio. Yn sgil hyn ystyrir fod y polisi yn unol â Pholisi B29 CDUG sy'n ymwneud a rheoli datblygiadau a'u cyffiniau rhag berygl llifogydd.

**Materion trafnidiaeth a mynediad**

5.13 Fe ystyrir, trwy drafod ymhellach gyda'r datblygwr, y gellid sicrhau darpariaeth a trefniadau parcio derbyniol ar y safle er cwrdd â gofynion yr Uned Drafnidiaeth ynghylch yr effaith ar ddiogelwch priffyrdd . O wneud hyn, fe ystyrir felly bydd y datblygiad yn cydymffurfio â Pholisi CH33 o'r CDU.

**Yr economi**

5.14 Mae'r ymgeisydd yn gwmni lleol sy'n bwriadu creu cyfleoedd cyflogaeth newydd yn lleol. Byddai'r datblygiad yn caniatáu i'r cwmni ehangu a thrwy hynny helpu cynaladwyedd economaidd y busnes. Fe feddai hyn yn cydfynd gydag amcanion Polisi Strategol 16 y CDU.

**Yr ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus**

5.15 Ystyrir fod defnydd y safle, dyluniad yr adeilad a'r effeithiau mwynderol tebygol yn dderbyniol o safbwynt polisïau'r Cynllun Datblygu Unedol. Rhoddwyd ystyriaeth deilwng i bob mater cynllunio perthnasol a godwyd gan y gwrthwynebwyr wrth ystyried y cais hwn ond nid ydynt wedi newid yr argymhelliad.

**6. Casgliadau:**

6.1 Wrth gymryd i ystyriaeth yr asesiad uchod credir fod y bwriad yn dderbyniol ar sail ei ddefnydd, lleoliad, gosodiad, dyluniad, deunyddiau, graddfa ac unrhyw effaith bosibl ar fwynderau cyffredinol yr ardal ac felly ei fod yn cwrdd gyda gofynion y polisïau lleol a chenedlaethol perthnasol a nodir yn yr adroddiad.

**7. Argymhelliad:**

7.1 Dirprwyo'r hawl i ganiatáu'r cais yn ddarostyngedig i dderbyn gwybodaeth bellach gan yr ymgeisydd, ynghyd a derbyn chymeradwyaeth yr Uned Drafnidiaeth iddo, ynglyn â trefniadau parcio a llwytho derbyniol ac i amodau perthnasol yn ymwneud â:

1. Amser 5 mlynedd.
2. Yn unol â'r cynlluniau
3. Cytuno gorffeniad a lliw allanol.
4. Amodau Dŵr Cymru
5. Amodau Priffyrdd / Parcio (i'w cytuno)
6. Cyfyngu oriau gweithredu'r ganolfan MOT / adeilad trwsio cerbydau i 08:00 - 18:00 Llun i Gwener, 08:-13:00 Dydd Sadwrn, ar gau Dydd Sul ac ar wyliau banc
7. Cyfyngu oriau gweithredu'r uned gwerthu ceir i 08:00 - 18:00 pob diwrnod
8. Cyfyngu oriau goleuo - dim goleuo rhwng 18:30 a 07:70